CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

**Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 5ed o Fawrth 2025 am 7.30yh yn Dinas Mawddwy.**

Presennol; Cyng.John P Jones, Wyn Lewis, John P Roberts, Rhys Davies, Berwyn Harding, Catrin Johnson, Idris Jones, a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Cyng John P Jones.
   Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng Arfon Hughes, Sion Alun Roberts, a Lynne Mccrickett
   Gwahoddwyd ddatganiadau o ddidordeb am faterion ar yr agenda. Nid oedd unrhyw ddatganiadau.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a** gynhaliwyd ar yr 22ain o Ionawr ar gynnig Cyng Wyn Lewis a'i eilio gan Cyng Rhys Davies.

4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd a Cefnffyrdd** – adroddwyd yn llawn am yr ymatebion i faterion ers y tro diwethaf. Roedd y gwaith ym maes parcio Neuadd Aberangell ar y gweill. Yng ngyswllt coed ar y ffordd i Cefn yn Aberangell, roedd y Cyng John P Roberts wedi tynnu lluniau a'u danfon i'r Clerc.
Diolchwyd i Cyng Wyn Lewis am glirio y graean ar lwybr Dolybont.

b) **Gwerthiant Eglwys Llanymawddwy –** nid oedd diweddariad i law.

c) **Cwyn am 2 garafan static** – Min y Goedwig, Aberangell, gwelwyd fod angen cael lluniau.

d) **Pwyllgor yr Hen Fynwent –** nid oedd diweddariad. (mewn ymateb i ymholiad, nodwyd nad oedd y fynwent yma yn gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned)

e) **Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas –** Cadarnhaodd Cyng Wyn Lewis ei fod yn disgwyl un amcangyfrif arall i law.

f) **Blwch Post yn Cerist -** Roedd y Clerc wedi cysylltu gyda'r Post Brenhinol unwaith eto, ac nid oedd ateb i law. Byddai yn cysylltu gyda Mabon ap Gwynfor i gael ei gymorth.

g) **Ystyriwyd ymhellach llythyr Liz Saville Roberts AS** - roedd y Clerc wedi cysylltu gyda Age Cymru, ac wedi cael Ebrill 23ain fel dyddiad i ddod i Dinas i wneud sessiwn 'galw mewn', rhwng 1.30 a 3.30 y pnawn. Cytunwyd i hyn..

h) **Gofal/archwiliad o fynwentydd y Cyngor;**

*Mynwent Mallwyd* – Diolchwyd yn fawr i bawb fu ym mynwent ar 17 a 18 Chwefror yn tacluso/ clirio. Nodwyd gyfarfod eto ar bore y 7fed Mawrth mewn neges gan Cyng Lynne Mccrickett. Darllenwyd e-bost gan Cyng Arfon Hughes ynglyn a mynwent yr Eglwys, a gwelwyd fod rhaid trafod rhai materion y tro nesaf.

*Mynwent Llanymawddwy* – Adroddwyd am gyfarfod 4.02.25 ym mynwent Llanymawddwy, a'r asesiad risc oedd wedi ei baratoi gan y Clerc, a chytunwyd I hyn. Roedd Cyng Sion Alun Roberts wedi clirio mwswg/tyfiant o'r llwybr sy'n arwain I'r Eglwys a diolchwyd iddo.

Nodwyd e-bost gan Ruth Cooke o'r Eglwys yng Nghymru, yn awgrymu gwneud arwydd yno ar y cyd efo'r Cyngor Cymuned ynglyn a'r risciau posib. Penderfynwyd fodd bynnag i gadw arwahan, a bod yr Eglwys yn gwneud hyn eu hunain. Roedd rhaid ir arwydd fod yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.

*Mynwent Dinas* – Adroddodd Cyng Wyn Lewis ei fod wedi ymweld

Nodwyd fod Tegid ac Andrew wedi cadarnhau fod pob dim yn iawn i dorri y gwair yn y ddwy fynwent yn 2025. Nodwyd bwysigrwydd clirio y gwair ar ol ei dorri.

i) **Cylch yr Iaith –** diolchwyd I'r Cyng Arfon Hughes am lunio llythyr I fynd I Mark Drakeford yn Llywodraeth Cymru yng nghyswllt argymhellion Comisiwn y cymunedau Cymraeg.

j) **Gohebiaeth 'Cyfeillion Llyn'** – oedd wedi ei ddanfon i'r Cynghorwyr – cytunwyd I'w fabwysiadu.

**5 . Materion Cynllunio**

Nodwyd Canllawiau i Gynghorau Cymuned gan Adran Gynllunio y Parc Cenedlaethol oedd wedi ei gylchredeg i bawb.

Gyda ymgynghoriad ceisiadau cynllunio, nodwyd bod rhaid unai CEFNOGI (gyda rhesymau) neu GWRTHOD (gyda rhesymau)

**6. Materion Cyllid.**

a) **Nodwyd balansau y cyfrifon**, (5.03.25), sef Cyfri Cyfredol £6612.58, Cyfri Claddedigaeth £1801.29 a Cyfri Cadw £791.29.

Darllenwyd lythyr o ddiolch am y cyfraniad i Neuadd Aberangell.

**b) Anfonebau I'w talu;**

Ar gynnig Cyng Berwyn Harding a'i eilio gan Cyng Idris Jones, cytunwyd i dalu y canlynol;

- Cydnabyddiaeth chwarter olaf y Clerc £434.95 a HMRC £108.80. Hefyd costau y flwyddyn £1250 oedd wedi ei gytuno
- Anfoneb Evans & Owen – gwaith PAYE ayyb - £228.00
- Aelodaeth Un Llais Cymru 2025-26 - £156.

**c) Ceisiadau am arian;**

Ar gynnig Cyng Catrin Johnson a'i eilio gan Cyng John P Roberts, penderfynwyd y canlynol;

- Cylch Meithrin Dolybont - £500
- Clybiau Ffermwyr Ieuainc Meirionnydd - £200
- Yr Urdd – Cronfa Cyfle i bawb 2024-25 - £200

- Ambiwlans Awyr Cymru – i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

d) Nodwyd fod cyfrifon y Cyngor am 2023-24 wedi eu dychwelydd gan yr Archwilydd Allanol, ac y byddai yr hysbyseb yn ymddangos yn ol yr arfer.

7. **Gohebiaeth.**

a) Nodwyd nad oedd dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru diweddaraf i law. Roedd angen diweddaru y cynllun hyfforddiant yn dilyn dau gwrs a gwbwlhawyd gan Cyng Lynne Mcrickett.

b) Cadarnhawyd benodiad Archwilydd Mewnol, sef Uned Archwilio Cyngor Gwynedd - drwy lythyr ymrwymo yng nghyswllt cyfrifon 2024-25

c) Nodwyd hysbysiad yn cadarnhau erthygl 4 gan y Parc Cenedlaethol.

d) Nodwyd lythyr Sian Gwenllian AS yn ceisio cefnogaeth i gael Ysgol Ddeintyddol ym Mangor. Cytunwyd yn unfrydol i hyn.

e) Nodwyd Gynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gan y Comisiynydd Heddlu.

f) Nodwyd adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol Cynghorwyr.

**8. Unrhyw Fater arall.**

**a)** Diolchwyd yn fawr iawn i Cyng Catrin Johnson am ei gwaith yn paentio arwyddion y ffynnhonau yn Aberangell, sef Ffynnon Byseiri a Pistyll Ffriddfach.

**b)** Diolchwyd yn fawr i bawb o'r gwirfoddolwyr fu yn casglu sbwriel yn yr ardal yn ddiweddar.

c) Roedd dwr yn gorlifo allan o'r 'manhole' ger y fainc ar Rhiw Landrin.

d) Roedd tyllau ar y ffordd ger yr Esgair – ar y ffordd trosodd i Gorris o Aberangell.

e) Adroddodd Cyng John P Roberts am ddau ddigwyddiad o fewn y misoedd nesaf, sef y British Fell Relay Championship yn mynd drwy Dinas ar y 18fed o Hydref, a hefyd cystadleuaeth Red Bull eto elani ar benwythnos ola Gorffennaf.

f) Roedd tyllau yn y ffordd ar y sgwar yn Aberangell, a ger Pont Wen.

**g)** Diolchwyd am noson dramau hwyliog dros ben yn y Dinas yn ddiweddar, gyda llongyfarchiadau mawr i Gwawr ar ysgrifennu y ddrama.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; CYFARFOD BLYNYDDOL, NEUADD DINAS MAWDDWY NOS FERCHER 14EG o FAI 2025 am 8.00y.h.**